**Effeithiau Newid Hinsawdd ar Iechyd yng Nghymru: Archwilio'r sylfaen dystiolaeth a nodi blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol**

**Agenda Amlinellol – 6 Mehefin 2024**

**Ar-lein trwy Teams, wedi'i drefnu/cynnal gan Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru**

| | | |
|---|---|---|
| 9:30 | **Croeso a threfniadaeth** | Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHNC) |
| 9:35 | **Anerchiad agoriadol, Iechyd Cyhoeddus Cymru** | Huw George, Dirprwy Brif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| 9:40 | **Anerchiad agoriadol, Llywodraeth Cymru** | Keith Reid, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru |
| 9:45 | **Cyflwyniad: Risg/cyfleoedd newid hinsawdd ar lefel Cymru a'r DU** | Dr Alan Netherwood, Netherwood Dyfodol Cynaliadwy a Chymrawd Ymchwil Anrhydeddus ym Mhrifysgol Caerdydd |
| 10:05 | **Cyflwyniad: Newid Hinsawdd yng Nghymru: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd** – asesu'r angen am asesiadau effaith ar iechyd | Liz Green, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| 10:25 | **Cyflwyniad: Effeithiau newid hinsawdd ar iechyd yng Nghymru** | Laura Andrews/Mark Humphrys, SEA |
| 10:45 | **Crynodeb gan Iechyd Cyhoeddus Cymru** | Rebecca Masters, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| 10:50 | **Egwyl** | |
| 11:00 | **Cyflwyniad i waith grŵp ar ddadansoddi bylchau tystiolaeth**<br><br>Pob grŵp i ystyried y cwestiynau a ofynnir a myfyrio ar y canlynol:<br>- ai'r rhain yw'r cwestiynau cywir i fynd i'r afael â bylchau presennol a fydd yn cael effaith benodol yng Nghymru?<br>- A oes unrhyw beth ar goll?<br>- a oes unrhyw ymchwil eisoes yn digwydd/ar y gweill sy'n ymwneud â'r cwestiynau? | Rebecca Masters i gyflwyno (PHNC i hwyluso pob grŵp) |
| 11.05 | **Grŵp 1: Diogelu, Hyrwyddo ac Addysg ynghylch Newid Hinsawdd**<br><br>1. Pa rôl y mae iechyd y cyhoedd yn ei chwarae yng nghyd-destun lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd, a ble mae'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol?<br>2. Beth yw'r cysylltiad rhwng newid hinsawdd, tywydd eithafol (amodau gwres a gwlyb), ymddygiad iechyd unigolion, a'u mynediad at chwarae, gweithgarwch corfforol, a chwaraeon awyr agored?<br>3. Pa ôl-effeithiau iechyd a brofir gan gymunedau sy'n byw mewn ardaloedd â risgiau amgylcheddol?<br>4. Pa fathau o negeseuon a thechnegau cyfathrebu yw'r rhai mwyaf effeithiol ar gyfer cyfleu risg amgylcheddol i gymunedau sy'n wynebu risgiau o'r fath?<br>5. Sut y gallai newid hinsawdd ddylanwadu ar nifer yr achosion o glefydau heintus yng Nghymru, a pha fesurau a allai fod yn angenrheidiol i fynd i'r afael â bygythiadau sy'n dod i'r amlwg? | **Grŵp 2: Ymateb a Hwyluso Gweithredu ar Newid Hinsawdd**<br><br>1. Pa strategaethau sydd fwyaf effeithiol o ran cymell ac ymgysylltu â chymunedau i gymryd rhan weithredol mewn ymdrechion i liniaru ac addasu i newid hinsawdd?<br>2. Sut mae cyfalaf cymdeithasol a gweithredu cymunedol yn cyfrannu at effeithiolrwydd ymatebion i addasu a lliniaru newid hinsawdd?<br>3. Pa strategaethau profedig sy'n bodoli ar gyfer lliniaru canlyniadau uniongyrchol, tymor canolig a thymor hir llifogydd a digwyddiadau tywydd eithafol eraill ar iechyd meddwl a llesiant y poblogaethau yr effeithir arnynt?<br>4. Pa fesurau iechyd y cyhoedd sydd eu hangen i gynnig cymorth i gymunedau sy'n wynebu dadleoli neu addasu oherwydd bygythiadau llifogydd sydd ar fin digwydd?<br>Pa ymyriadau sy'n hanfodol i baratoi cartrefi ar gyfer heriau'r dyfodol a'u haddasu mewn ffyrdd sy'n sicrhau iechyd a llesiant? |
| 11:45 | Adborth gan Grwpiau | Hwyluswyr o bob Grŵp |
| 12:00 | Sesiwn sylwadau i gloi | Lisa Wise, Llywodraeth Cymru |
| 12:15 | Sesiwn yn dod i ben | |